Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 12 Ionawr,2026 drwy gyfrwng Zoom

Presennol: Elen (EH)**(Cadeirydd),** Iolo Roberts (IPR),Iolo ap Gwynn (IAG),Dwynwen (DP), Richard (RR), Eurig (EJ), Dilys (DAP), Steve (SW), Erwyn (ERJ), Mathew (MW), Gethin (GR), Dewi (DH), Keith (KR)

1.	**CROESO** Dymunodd Elen flwyddyn newydd dda i'r aelodau a gwerthfawrogi fod holl aelodau'r Pwyllgor yn gallu bod yn bresennol.	
2.	**COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod fel rhai cywir: i. 1 Medi, 2025 ii. 15 Hydref, 2025 **NODER** ni chafwyd cyfle i ystyried syniad IAG ynglŷn â chael amgueddfa yn olrhain hanes mynydda yng Nghymru yn y cyfarfod yma.	
3.	**MATERION ARIANNOL & TÂL AELODAETH 2026** Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol Adroddodd • Erbyn 12 Ionawr ailymaelododd 210 â'r Clwb a thalu'r tâl aelodaeth newydd • Talodd 24 aelod yr hen dâl o £25 ac angen gwneud taliad ychwanegol, a 36 aelod yn dal i dalu llai na £25 • Hyd yma roedd 16 aelod heb wneud unrhyw fath o daliad a therfynodd 17 eu haelodaeth • Credai fod y broses o newid y tâl aelodaeth wedi mynd yn eithaf llyfn ac roedd yn bosib y byddai mwy o unigolion yn ymuno yn ystod y flwyddyn • Byddai angen creu rhestr e-byst ddiwygiedig yn seiliedig ar aelodaeth 2026 y Clwb maes o law • Wedi derbyn y taliadau aelodaeth mae swm sylweddol o arian yng nghoffrau'r Clwb ond bydd yn gostwng ar ôl gwneud taliad i'r CMP. • Anfonwyd Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr y Clwb (sef adroddiadau swyddogion) i'r Comisiwn Elusennau yn unol â'r gofynion Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i DAP am ei holl waith. .	
4.	**CERDYN CYSWLLT MEWN ARGYFWNG** Cyflwynwyd enghraifft o'r cerdyn a ddefnyddir gan aelodau Cymdeithas y Cerddwyr ar gyfer nodi eu manylion cyswllt mewn argyfwng ac unrhyw gyflwr meddygol sydd ganddynt. Fe'i addaswyd gan KR ar gyfer dibenion y Clwb. Cytunwyd. i. symud ymlaen gyda'r syniad o ddefnyddio'r cerdyn yma ond gyda'r newidiadau canlynol • Dileu cyfeiriad a rhif ffôn aelod	

	• Dileu dyddiad geni aelod a nodi blwyddyn geni yn unig ii. gofyn i KR a DAP gytuno ar ddyluniad terfynol diwygiedig y cerdyn a'i gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor iii. gofyn i KR drefnu argraffu'r cerdyn iv. nodi y bydd y cerdyn a'r amlen blastig bwrpasol i'w warchod rhag yr elfennau yn cael eu dosbarthu i bob aelod gyda cherdyn aelodaeth Clwb v. nodi bod y Pwyllgor yn argymell ei gario ym mhoced dop y sach gerdded fel ei fod wrth law pe byddai argyfwng ac angen y wybodaeth berthnasol vi. gofyn i IAG roi copi o'r cerdyn ar y wefan maes o law vii. diolch i KR am ei holl waith efo hyn.	
5.	**<u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2025</u>** Adroddwyd bod Cyfarfod Blynyddol y llynedd wedi gofyn i'r Pwyllgor roi sylw i'r materion canlynol: A. Gofyn i'r Pwyllgor ystyried gwerth sefydlu trefn o aelodaeth cysylltiol ar gyfer aelodau ddymunai gefnogi'r Clwb heb gymryd rhan yn y gweithgareddau Cytunwyd ar ôl ystyried hyn na fyddai'n bosib sefydlu categori aelodaeth o'r fath yma oherwydd problemau ymarferoldeb a gofynion aelodaeth y Clwb efo'r CMP B. Gofyn i'r Pwyllgor, gan fod y nifer yn mynychu'r Cyfarfod Blynyddol yn isel ac wedi bod yn lleihau yn gyffredinol dros y blynyddoedd, roi sylw i hyn ac ystyried a fyddai modd cynyddu'r presenoldeb. Ystyriwyd ffurf / côst/ lleoliad / beth allasai weithio'n well, ymysg ystyriaethau eraill. Cytunwyd dechrau ceisio gwella presenoldeb y Cyfarfod Blynyddol drwy gymryd y camau canlynol: i. pennu dyddiad yn fuan er mwyn rhoi cyfle i aelodau nodi'r dyddiad yn gynt yn eu dyddiaduron ii. cynnal y cyfarfod ychydig yn ddiweddarach ym mis Tachwedd fel y gellid ei weld hefyd fel dathliad Nadoligaidd buan iii. cael siaradwr gwadd yng nghyfarfod 2026 a gofyn i aelodau'r Pwyllgor feddwl am awgrymiadau erbyn y cyfarfod nesaf iv. yn sgil i. uchod dylid anelu i gynnal y cyfarfod ar nos Sadwrn 21 Tachwedd, 2026 yng Ngwesty'r Royal Oak ym Metws y Coed os yn bosib a gofyn i IPR drefnu v. gan fod Paula Roberts wedi codi yn y Cyfarfod Blynyddol y posibilrwydd o lunio holiadur i holi barn yr aelodau ar natur a ffurf y Cyfarfod, gofyn i EH drafod hyn efo hi a symud ymlaen i'w drefnu os yn ymarferol.	IPR EH
6.	**<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>** Adroddodd RR fel a ganlyn: • bod y rhaglen ar gyfer y cyfnod Ionawr i Ebrill wedi ei chyhoeddi gyda thaith bron i bob penwythnos yn y gogledd a'i fod yn hynod o ddiolchgar i bawb oedd yn arwain teithiau. • bod y rhaglen yn cynnwys 1 daith ddu, 6 goch, 10 wyrdd, 2 felyn a 1 wen. • y gwnaed apêl am fwy o gynigion ar gyfer teithiau dydd Mercher • bod trefniadau ar y gweill ar gyfer taith y gaeaf i Crianlarich yn yr Alban • ei fod yn awyddus i gael taith flasu arall ym mis Mai. • Adroddodd DH ei fod yn ceisio cael mwy o aelodau i gynnig arwain teithiau	

	fel y gellid cynnal teithiau amlach yn y de Cytunwyd i. nodi'r wybodaeth a diolch i RR am ei holl waith ii. cytuno â'r awgrym y dylid cynnal taith flasu ym mis Mai.	
7.	**<u>ARCHIF Y CLWB</u>** Nodwyd fod SW a DAP heb gael cyfle i gymharu'r deunydd yn eu meddiant (rhai SW ar ffurf dogfennau papur a rhai DAP mewn ffurf digidol ar go bach) er mwyn asesu faint o waith sganio dogfennau fydd ei angen cyn eu trosglwyddo i'r Llyfrgell Genedlaethol gan y gallent fod o ddefnydd i'r Clwb erbyn 2029 pan fydd yn dathlu hanner canmlwyddiant.	
8.	**<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2026</u>** Ystyriwyd trefniadau ar gyfer Eisteddfod 2026 Adroddwyd y bydd DP yn traddodi Darlith Goffa Llew Gwent eleni am eu hanturiaethau yn cerdded o Munchen i Venezia yn ystod haf llynedd, ac y bydd Richard Mitchley yn arwain taith leol, Taith Goffa Gareth Pierce, ar y dydd Mercher. Cytunwyd A. diolch i DP a Richard Mitchley am gytuno i gyflawni gweithgareddau'r Clwb yn Eisteddfod 2026 ii. gofyn i RR drefnu llogi lle ym Mhabell y Cymdeithasau, naill ai ar y Dydd Gwener neu'r Sadwrn, ar gyfer y ddarlith iii. bydd angen trafod cyhoeddusrwydd i'r gweithgareddau hyn yn y cyfarfod nesaf.	
9.	**<u>POLISI RHEOLI RISG SGRAMBLO A/NEU DRINGO HAWDD</u>** Ystyriwyd polisi drafft a luniwyd gan DH ar yr uchod. Cytunwyd i. mabwysiadu'r polisi gyda'r ychwanegiad fod hawl gan arweinydd taith i wrthod aelod heb offer priodol rhag ymuno ar daith sgramblo ii. dylid gosod y polisi ar wefan y Clwb	
10.	**<u>MATERION CMP</u>** Adroddwyd A. bod cardiau aelodaeth y CMP ar ffurf digidol bellach ac felly byddant yn cael eu dosbarthu i aelodau trwy e-bost yn hytrach na thrwy'r post. B. o 1 Ionawr 2026 bydd aelodaeth Clwb o'r CMP yn darparu gwarchodaeth damwain bersonol hyd at £10,000 ar gyfer unrhyw anaf i aelod tra yn cerdded neu ddringo C. bod y CMP wedi creu digwyddiad ar-lein ynglŷn ag enwau lleoedd Cymraeg yn yr awyr agored – o Chwarel Dinorwig i Barciau Cenedlaethol CH. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Rhanbarth Gogledd Cymru ym mis Hydref, 2025 pryd etholwyd 3 cyd-gadeirydd . Cytunwyd i. nodi'r wybodaeth ii. dylid cynnwys gwybodaeth am y datblygiadau a nodir yn B a C uchod yn y llythyr a anfonir i holl aelodau'r Clwb gyda'u cerdyn aelodaeth iii. croesawu'n arw clywed fod y CMP yn gwneud ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg yn yr awyr agored.	

11.	**<u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u>** Adroddodd DP • mai ond un aelod oedd wedi cysylltu â hi i ddatgan diddordeb mewn gwneud cwrs cymorth cyntaf • mai ond £20 y dydd fyddai'n rhaid ei dalu am gwrs cymorth cyntaf gyda'r bartneriaeth yn ysgwyddo gweddill y gost • bod posibilrwydd y gallai aelod o'r Clwb fyddai'n bwriadau gwneud asesiad ML eleni gael cymorth gan y Bartneriaeth • gallai fod yn haws pe byddai'r Bartneriaeth yn cynnig cyrsiau ar ddyddiau penodol fel y gellid hysbysu aelodau amdanynt Cytunwyd i. gofyn i RR anfon neges i'r aelodau yn holi a fyddai unrhyw un â diddordeb mewn mynychu cwrs cymorth cyntaf gyda chymorth y Bartneriaeth ii. nodi os bydd y diffyg diddordeb yn parhau bydd yn rhaid i'r Pwyllgor ystyried gwerth parhau i wneud y taliad blynyddol i fod yn aelod o'r Bartneriaeth iii. gofyn i DP drafod y sefyllfa efo'r Bartneriaeth.	RR DP
12.	**<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>** Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 18 Mai, 2026, drwy gyfrwng Zoom.	